# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD IAU,<br>13 MAWRTH 2014 am 2.00 o'r gloch** | **THURSDAY,<br>13 MARCH, 2014 at 2.00 p.m.** |
| **SIAMBR Y CYNGOR,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones, Raymond Jones

**Gwahoddiad i Holl Aelodau'r Cyngor Sir/Invitation to all Members of the County Council**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd fel a ganlyn :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 15 Ionawr, 2014.
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 4 Chwefror, 2014

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 7 - 8)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

4 **PROSIECT TRÎN GWASTRAFF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 9 - 366)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Amgylchedd a Thechnegol a'r Prif Swyddog Rheoli Gwastraff.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, R Ll Jones, Richard Owain Jones, Raymond Jones and Dylan Rees. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy (Eitem 6),<br>Cyfarwyddwr Cymuned (GC) (Eitemau 4 a 5),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau'r Cyngor) (CW) (Eitem 6),<br>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Eitem 6),<br>Pennaeth yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol (DRW) (Eitem 6),<br>Pennaeth Economaidd ac Adfywio Cymunedol (Eitem 6) (DW),<br>Rheolwr yr Uned Cefnogi Busnes (GLl) (Eitem 5),<br>Rheolydd Sgriwtini (BS),<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr W.T. Hughes, Carwyn Jones, Dafydd Rhys Thomas.<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams – Arweinydd y Cyngor.<br><br>Mr. Keith Roberts – (Yn cynrychioli'r Eglwys Babyddol).<br>Mr. Andy Bruce – Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd K.P. Hughes (Aelod Portffolio – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) (ar gyfer Eitemau 4 a 5),<br>Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio - Cyllid) (ar gyfer Eitem 6),<br>Y Cynghorydd A.M. Jones (Aelod Portffolio – Datblygiad Economaidd, Twristiaeth a Hamdden) (ar gyfer Eitem 6),<br>Y Cynghorydd R.A. Dew (Aelod Portffolio – Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff) (ar gyfer Eitem 6),<br>Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Aelod Portffolio – Cynllunio a'r Amgylchedd) (ar gyfer Eitem 6).<br><br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones – Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.<br>Y Cynghorwyr Llinos Huws, T. Victor Hughes, P.S. Rogers – Aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (ar gyfer Eitem 6)<br><br>Y Cynghorwyr T.Ll. Hughes, Nicola Roberts.<br><br>Mr. Mark Roberts - AGGCC (ar gyfer Eitemau 4 & 5). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodir yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd isod :-

- 21 Tachwedd, 2014 (Galw i Mewn)
- 28 Tachwedd, 2014

**Cymunedau'n Gyntaf – Ynys Môn**

Gofynnodd y Cynghorydd Dylan Rees a gafwyd ymateb gan Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf mewn perthynas â chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd eu Bwrdd ar eu gwefan. Dywedodd y Swyddog Sgriwtini y byddai'n cysylltu â Chymunedau'n Gyntaf Môn Cyf yn y man ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

## 4 Y BWRIAD I SEFYDLU BWRDD CYFLAWNI INTEGREDIG AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YM MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cymuned ar yr uchod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned – y credir y gellir cwrdd yn well ag anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn drwy integreiddio'n well y gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth iechyd a'r awdurdod lleol. Er mwyn hwyluso'r broses hon ac er mwyn sefydlu strwythur llywodraethu cadarn, bwriedir sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig er mwyn rhoi siâp ar y prosesau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth a sicrwydd ansawdd; enwebu 2 aelod etholedig i wasanaethu ar y bwrdd a chytuno i'r amserlen gyda'r disgwyliad y bydd y Bwrdd yn weithredol erbyn Ebrill 2014. Dygwyd sylw yn yr adroddiad at aelodaeth arfaethedig y Bwrdd.

Nodau ac amcanion datblygu Bwrdd Cyflawni Integredig Cydweithredol ar gyfer gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymunedol ar yr Ynys yw gweithio tuag at ddarparu 'gwasanaethau sengl' sy'n cynnwys alinio cynlluniau, cyllidebau a threfniadau yn well.

Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith ar 13 Ionawr, 2014.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD cymeradwyo mewn egwyddor y cynnig i ddatblygu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymunedol ar Ynys Môn.**

## 5 DATGANID O FWRIAD AR OFAL INTEGREDIG I BOBL HŶN A CHANDDYNT ANGHENION CYMHLETH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cymuned ar yr uchod.

Dywedodd Rheolwr yr Uned Cefnogi Busnes mai Datganiad o Fwriad Cychwynnol y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu gwasanaethau integredig ar gyfer Pobl Hŷn a chanddynt anghenion cymhleth yw hwn. Bydd atborth ar y Datganiad yn cyfrannu at Ddatganiad terfynol a Chynllun Gweithredu erbyn 31 Mawrth, 2014. Er bod angen i'r Datganiad o Fwriad, yn ôl y ddogfen Fframwaith, ganolbwyntio ar Bobl Hŷn a chanddynt Anghenion Cymhleth, ystyrir y byddai'r dull hwn yn un ffafriol ar gyfer yr holl grwpiau defnyddwyr gwasanaeth eraill yn y dyfodol. Nodwyd bod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-

- Derbyn y Datganiad o Fwriad Cychwynnol ar gyfer Gogledd Cymru – sy'n cynnwys cyfraniadau gan Gyngor Sir Ynys Môn – ar gyfer ei gyflwyno gan BIPBC a'r 6 sir i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2014 er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol a amlinellir yn y ddogfen 'Fframwaith Gwasanaethau Integredig ar gyfer Pobl Hŷn gydag Anghenion Cymhleth;
- Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cymuned i gydweithio gyda BIPBC a'r 6 awdurdod lleol ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ac yn lleol yma ar Ynys Môn trwy'r Bwrdd Cyflawni Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bwriedir ei sefydlu i ddarparu trefniadau llywodraethu cadarn ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer llunio Rhaglen Waith a fydd yn arwain ar ddatblygu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion cymhleth.

**PENDERFYNWYD nodi a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith.**

## 6 CYLLIDEB 2014/2015 – CYNIGION DRAFFT Y PWYLLGOR GWAITH

Amlinellodd y Cadeirydd gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn o ran y drafodaeth ar y Gyllideb ar gyfer 2014/15 h.y. i.e. Economaidd, Priffyrdd a Gwasanaethau Cynllunio.

Rhoes wahoddiad i'r Cynghorydd R. Meirion Jones, fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, annerch y cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2014 wedi cael trafodaeth faith ar y Gyllideb ar gyfer 2014/15 ond nad oeddynt wedi cyrraedd yr Arbedion Ariannol ar gyfer Cynaliadwyedd. Cafwyd trafodaeth ynghylch a fedrai Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol drafod y gyllideb ar gyfer Cynaliadwyedd fel rhan o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio oherwydd bod y Swyddogion priodol yn bresennol yn y cyfarfod hwn ac oherwydd nad oes llawer o amser i'r Pwyllgorau Sgriwtini gyflwyno eu sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio i ganiatáu i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol drafod yr arbedion yng Nghyllideb yr Adran Gynaliadwyedd.

Rhoes yr Aelod Portffolio (Cyllid) adroddiad byr ar gynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb y Cyngor am 2014/15. Amlinellodd y cynigion ar gyfer arbedion – cyfanswm o £7.5m – a nododd y cynnig i godi'r Dreth Gyngor gan 5%. Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, bydd gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yn cael eu gwarchod. Nododd y bydd canolfannau hamdden a gwasanaethau llyfrgell yn cael eu gwarchod eleni ond nad oes unrhyw sicrwydd y bydd modd gwarchod y gwasanaethau hyn yn y blynyddoedd dilynol.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i bob Aelod Portffolio a Phennaeth Gwasanaeth roi amlinelliad o'u harbedion arfaethedig i'r Pwyllgor.

Cododd Aelodau'r Pwyllgor y prif faterion isod mewn perthynas â'r arbedion arfaethedig :-

- **Cynnydd mewn ffioedd parcio** – mynegwyd pryderon y bydd canol y trefi'n cael eu heffeithio oherwydd y bydd pobl yn dewis peidio â siopa yn y busnesau lleol. Gallai colli incwm gael effaith andwyol ar fusnesau;

- **Cynnydd mewn ffioedd a phrisiau hamdden** – mynegwyd pryderon y gallai'r cynnydd yn y ffioedd ar gyfer defnyddio canolfannau hamdden a thoriadau staffio gael effaith ar y mentrau byw'n iach, h.y. ar gyfer clefyd y galon, clefyd siwgr, gordewdra ac annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon;

- **Newidiadau i'r ddarpariaeth o ran toiledau cyhoeddus** – mynegwyd y farn bod rhaid cael toiledau cyhoeddus o safon uchel. Nodwyd y dylid ymestyn y cynllun o dalu £500 i fusnesau lleol i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'r toiledau sydd ganddynt yn eu hadeiladau a bod angen gwneud gwaith pellach i annog Cynghorau Tref a Chymuned neu'r gymuned leol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y cyfleusterau hyn.

- **Toriadau o ran Cynnal a Chadw Priffyrdd** - mynegwyd pryderon mawr ynghylch cyflwr lonydd bychan a phriffyrdd a fydd, fe ofnir, mewn cyflwr sobor o wael yn y dyfodol. Mae'r gyllideb Cynnal a Chadw Priffyrdd yn croestorri ac mae'n dibynnu ar y math o dywydd a geir drwy'r tymhorau, ffactor a fedr gael effaith ar gyllideb y gwasanaeth.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD derbyn cynigion drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb 2014/2015.**

## 7 DIWEDDARIADAU GAN Y CADEIRYDD NEU'R IS-GADEIRYDD AC UNRHYW GYHOEDDIADAU

Nid oedd gan y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd unrhyw ddiweddariadau neu gyhoeddiadau i adrodd arnynt.

## 8 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – Rhaglen Waith ddrafft gan y Swyddog Sgriwtini.

Nodwyd y bydd angen cynnal cyfarfod arbennig o bosib i drafod Prosiect Gwastraff Gogledd Cymru, cyfarfod y bydd holl Aelodau'r Cyngor Sir yn cael gwahoddiad iddo.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**Y CYNGHORYDD D.R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br>Y Cynghorwyr John Griffith, R Ll Jones, Richard Owain Jones Raymond Jones, Dylan Rees. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd datganiad o ddiddordeb.

**2 AMSER CYFARFODYDD**

(1) Adroddwyd bod y Cyngor Sir yn dilyn ystyried yr uchod wedi penderfynu fel a ganlyn :-

- *'I gefnogi galw rhai cyfarfodydd (Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini) am 4.00 p.m., a 4.30 p.m., a bod trefniadau'n cael eu trafod gyda'r Cadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau perthnasol a bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd o'r Cyngor ar 27 Chwefror, 2014;*
- *Nodi canfyddiadau'r asesiad effaith cydraddodeb cychwynnol;*
- *Bod trefniadau'n cael eu treialu am gyfnod o 12 mis gan ddechrau yn Ebrill 2014.'*

(2) Cyflwynwyd a nodwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn parhau i ddechrau am 2.00 p.m.**

**Y CYNGHORYDD A.W. MUMMERY**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***NORTH WALES RESIDUAL WASTE TREATMENT PROJECT***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| • Mae'r Adroddiad Pwyllgor sydd wedi ei amgáu a'r atodiadau yn rhoi gwybodaeth ar broses gaffael fanwl ar gyfer Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ynghyd â chynnig i wneud cytundeb partneriaeth tymor hir gydag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru i drin gwastraff gweddilliol. / The enclosed Committee Report and accompanying appendices provide information on a detailed procurement process for the North Wales Residual Waste Treatment Project together with a proposal to enter into a long term partnership agreement with other North Wales local authorities for the treatment of residual waste. | • Mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Pwyllgor sydd ynghlwm a'r atodiadau yn dangos y costau a dendrwyd ac a ddarparwyd gan fidiwr a ffefrir arfaethedig ynghyd â manylion yn ymwneud â chontract, sefyllfaoedd ariannol a risg a ddarparwyd fel rhan o'u tendr ac sydd yn fasnachol sensitif. / The information contained within the enclosed Committee Report and accompanying appendices show the tendered costs provided by a proposed preferred bidder together with details relating to contract, financial and risk positions provided as part of their tender which are commercially sensitive. |
| Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

# Eitem 4 ar y Rhaglen

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank